ECAD7004C: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?

Sesiwn 6

I’ch hatgoffa

- https://www.youtube.com/watch?v=9pCfq5QH_v4

Tasg Gyfeiriol

- Darllenwch Blackburn, C. (2018) Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises. In *BERA Bites: Early Childhood*, Issue 1.

- Darllenwch David, M., Edwards, R. & Alldred, P. (2001) Children and School-based Research: 'informed consent' or 'educated consent'? In *British Educational Research Journal*, Vol. 27, No. 3, pp.347-365.

Tasg (rhan 1)

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd o sesiynau 3, 4 a 6, mewn parau, paratowch sleid yn amlinellu'r ystyriaethau moesegol sydd eu hangen i astudio gwersi.

Dylech gyfeirio at:

- Canllawiau BERA
- Côd Ymarfer Moeseg Ymchwil YDDS

Tasg (rhan 2)

- Mewn grwpiau o 6, rhowch adborth beirniadol ar sleidiau eich gilydd, gan groesgyfeirio'r penderfyniadau gyda BERA (2018) a phrofiad proffesiynol ehangach.

Cymeradwyaeth foesegol

A oes angen cymeradwyaeth foesegol arnaf?

- Mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gallem ofyn p'un a oes angen cymeradwyaeth foesegol arnom pan fydd ein hymchwil ym ymwneud â datblygu ein harfer addysgu (ein haddysgeg)
- Mae pob gwaith ymchwil yn gofyn i chi ystyried y goblygiadau moesegol; pan fyddwch yn gofyn i gyfranogwyr wneud neu gyfrannu unrhyw beth sy'n ychwanegol at weithgarwch arferol yr ystafell ddosbarth, fel arfer bydd angen i chi geisio cymderadwyaeth foesegol
- Os ydych yn ymgymryd â gwaith ymchwil gyda Sefydliad Addysg Uwch neu os ydych yn cael eich ariannu gan gorff ymchwil, bydd angen i chi ofyn am eu prosesau cymeradwyo.
- Bydd gofyn i gofrestreion llwyddiannus fydd yn cael bwrsari CGA gael cymeradwyaeth moesegol gan banel moeseg CGA cyn iddynt gychwyn ar eu prosiect ymchwil.

A oes angen cymeradwyaeth foesegol arnaf?

Rhaid i'ch ffurflen gymeradwyaeth foesegol gael ei chyflwyno a'i chymeradwyo cyn i chi ddechrau unrhyw ymchwil.

Pwyllgor Moeseg a'r broses gymeradwyo foesegol

Proses ffurflenni moeseg TAR

- Caiff pob ffurflen foeseg ei darllen gan staff addysgu'r modiwl;
- Byddwch yn derbyn adborth unigol – caniatâd wedi'i gymeradwyo / caniatad amodol / gwrthod.
- Os byddwch yn cael cymeradwyaeth amodol, bydd angen i chi wneud y newidiadau sydd wedi'u nodi gan ysgrifennu’r newidiadau mewn coch ac ailgyflwyno eich ffurflen.
- Os caiff eich ffurflen ei wrthod, bydd hyn yn golygu bod gennych newidiadau sylweddol i'w gwneud a dylech gysylltu â Catherine am gymorth.

Proses ffurflenni moeseg TAR

Wedyn:

- Bydd Pwyllgor Moeseg Yr Athrofa yn derbyn sampl o ffurflenni moeseg

- Bydd y rhain yn cael eu dewis ar hap.

Pwyllgor Moeseg

- Grŵp o bobl yw panel cymeradwyo moesegol neu 'Bwyllgor Moeseg', gyda dealltwriaeth gyfunol dda o foeseg ymchwil, sy'n cyfarfod i drafod goblygiadau moesegol cynigion ymchwil;
- Bydd y Pwyllgor Moeseg yn ystyried camau arfaethedig yr ymchwilydd wrth fodloni'r goblygiadau moesegol;
- Fel rheol, gall y panel gymeradwyo ceisiadau, eu cymeradwyo'n amodol neu eu gwrthod;

Proses ffurflenni moeseg TAR

DS

Weithiau, gall mater a godir gan y Pwyllgor Moeseg olygu bod angen i **bob** myfyriwr wneud yr un gwelliant.

Ni ddylid wneud unrhyw waith ymchwil nes bod gennych gymeradwyaeth foesegol.

I'w wneud cyn yr 16eg o Ragfyr:

- Lawrlwythwch ffurflen moeseg YDDS o Moodle ar eich gliniadur

Ffurflen Foeseg

- Beth allwch chi ei gynnig yn hyderus?
- Peidiwch ag addo unrhywbeth na allwch ei gynnig
- Rhaid i oedolion gael eu hysbysu'n llawn
- Rhaid peidio â chamarwain plant a dylid eu hysbysu mor llawn â phosibl am eu hoed a'u gallu

Ymddwyn yn foesegol

'Ethical practice in research involves thoughtful reflection about how one ought to proceed in any given situation … it is more than simply the avoidance of being unethical or conforming to regulations'

(McGinn 2014: 159)

Unrhyw gwestiynau?

Search
http://
Analysis
RESEARCH
Data
www.
test
customer